



Ceri Davies
Pennaeth Adnoddau Dynol
Cyngor Sir Penfro
Ceri.Davies@pembrokeshire.gov.uk

4 Tachwedd 2019

Annwyl Mr Davies

Cynnig i newid cydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddog

Cafodd y cynnig a gyflwynwyd gennych ynghylch newid cyflog ac ad-drefnu rôl y Pennaeth Cyllid a Gwasanaethau Busnes i Ddirprwy Brif Swyddog Cyllid, ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn cyfarfod ar 25 Hydref. Roedd holl aelodau'r Panel yn bresennol ac felly roedd y cyfarfod yn gwneud cworwm.

Mewn perthynas â swyddogaeth y Panel yn ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon am y cynnig
- c) Argymell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl edrych ar y cynnig a gyflwynodd eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd ynghylch cyflog i swydd y Prif Swyddog yn unol â'r cynnig.

Yn gywir

John Bader
Cadeirydd